

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

Bil y Coronafeirws

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at bwrpas sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd Bil y Coronafeirws (y "Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 19 Mawrth. Mae'r Bil ar gael yma: <https://services.parliament.uk/Bills/2019-21/coronavirus.html>

Amcan(ion) Polisi

3. Amcan Bil y Coronafeirws yw galluogi Llywodraethau'r DU i ymateb i argyfwng a rheoli effeithiau pandemig coronafeirws. Mae'r Bil yn cynnwys mesurau dros dro er mwyn naill ai ddiwygio darpariaethau deddfwriaethol sydd eisoes yn bodoli neu gyflwyno pwerau statudol newydd i liniaru'r effeithiau hynny.

Crynodeb o'r Bil

4. Noddir y Bil gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
5. Diben y Bil yw galluogi Llywodraethau'r DU i ymateb i argyfwng a rheoli effeithiau pandemig COVID-19. Gallai pandemig difrifol heintio hyd at 80% o'r boblogaeth gan arwain at weithlu llai, a mwy o bwysau ar wasanaethau iechyd a phrosesau rheoli marwolaethau. Mae'r Bil yn cynnwys mesurau dros dro er mwyn naill ai ddiwygio darpariaethau deddfwriaethol sydd eisoes yn bodoli neu gyflwyno pwerau statudol newydd i liniaru'r effeithiau hynny. Mae'r Bil yn anelu at gefnogi Llywodraeth y DU gyda'r canlynol:
 - Cynyddu'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol sydd ar gael
 - Lliniaru'r baich ar staff rheng flaen
 - Cyfyngu ac arafu'r feirws
 - Rheoli'r ymadawedig â pharch ac urddas
 - Cefnogi pobl
6. Mae angen y Bil fel rhan o ymdrech ar y cyd ledled y DU i fynd i'r afael â haint COVID-19. Y bwriad yw y bydd yn galluogi'r bobl gywir o gyrff cyhoeddus ledled y DU i gymryd camau priodol ar yr adegau cywir i reoli effeithiau'r haint.
7. Mae COVID-19 yn argyfwng iechyd cyhoeddus ac mae'r Bil yn darparu mesurau eithriadol nad ydynt yn gymwys o dan amgylchiadau arferol. Am

y rheswm hwn, bydd y ddeddfwriaeth wedi'i chyfyngu i ddwy flynedd ac nid yw'n angenrheidiol nac yn briodol i'r holl fesurau hyn ddod i rym ar unwaith. Yn hytrach, gall llawer o'r mesurau yn y Bil gael eu cychwyn o ardal i ardal ac o bryd i'w gilydd, er mwyn sicrhau bod yr angen i ddiogelu iechyd y cyhoedd yn gydnaws â'r angen i ddiogelu hawliau unigolion. Gall y mesurau hyn wedyn gael eu hatal dros dro ac yna'n ddiweddarach eu hailgychwyn, os yw'r amgylchiadau'n caniatáu, dros oes y Ddeddf.

8. Gellir dod ag oes y Ddeddf ei hun i ben yn gynnar, os bydd y dystiolaeth wyddonol orau sydd ar gael yn cefnogi penderfyniad polisi nad oes angen y pwerau hyn mwyach. Mae hefyd yn bosibl estyn oes y Ddeddf am gyfnod dros dro pellach, eto os yw'n briodol gwneud hynny.
9. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â sbectrwm eang o feysydd ledled y DU. Serch hynny, maent i gyd yn canolbwyntio ar ymateb i amgylchiadau a all godi yn sgil y pandemig COVID-19.

Y darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

10. Byddai angen cydsyniad y Cynulliad ar gyfer y darpariaethau canlynol.
11. Cymal 1 - er nad yw'n brif ddarpariaeth, mae'n rhyngweithio â phrif ddarpariaethau. Felly, i'r graddau y mae'r cymal hwn yn rhyngweithio â phrif ddarpariaethau sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, byddai'r cymal hwn hefyd o fewn y cymhwysedd i'r un graddau. Nid oes gofyniad na rhwystr cyfreithiol i osod Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r ddarpariaeth hon ond rydym yn ystyried bod peth gwerth mewn cynnwys y ddarpariaeth diffiniad hon yn y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol.
12. Mae cymal 5 a pharagraff 2 o Atodlen 4 yn addasu dros dro Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 drwy fewnosod adran 83A newydd i'r Ddeddf honno i alluogi'r cofrestrydd¹ i gofrestru personau, neu bersonau sy'n ffurfio grŵp penodol ("*persons comprising a specified group*") os yw Gweinidogion Cymru yn dweud bod argyfwng² wedi digwydd, yn digwydd neu ar fin digwydd ac os yw'r cofrestrydd yn ystyried bod y person, neu os gellir ystyried yn rhesymol bod y grŵp, yn addas, yn briodol ac â phrofiad digonol i gael ei gofrestru'n weithiwr cymdeithasol. Mae paragraff 140 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn cadw rheoleiddio proffesiynau rhag cymhwysedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, serch hynny, mae rheoleiddio gweithwyr cymdeithasol a'r proffesiwn gofal cymdeithasol wedi'u heithrio o'r pwerau hynny a gedwir yn ôl. Rydym o'r farn bod y darpariaethau hyn o fewn cymhwysedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn

¹ Cofrestrydd Gofal Cymdeithasol Cymru yw'r cofrestrydd y cyfeirir ato yn adran 83A. *Gweler* adran 67 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 sy'n ailenwi Cyngor Gofal Cymru yn Gofal Cymdeithasol Cymru ac yn gwneud darpariaeth ar gyfer ei swyddogaethau cyffredinol (ynghyd ag Atodlen 2 i'r Ddeddf honno).

² Ystyr "argyfwng" yw "*emergency*" o'r fath a ddisgrifir yn adran 19(1)(a) o Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 (ystyr "argyfwng"), wedi'i darllen gydag is-adran (2)(a) a (b) o'r adran honno.

gymwys o ran Cymru ac felly rydym yn ystyried bod angen Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y cymal hwn.

13. Cymal 9 ac Atodlen 7 – diben y darpariaethau hyn yw atal oedi o ran derbyn pobl i ysbyty am driniaeth o ganlyniad i brinder staff yn ystod pandemig. Gwneir hyn drwy gyflwyno gwelliannau dros dro i Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 i alluogi swyddogaethau penodol mewn perthynas â chadw a thrin cleifion i gael eu cyflawni gan lai o argymhellion neu dystysgrifau meddygon. Mae gwelliannau dros dro hefyd yn caniatáu ar gyfer estyn neu ddileu cyfyngiadau amser penodol mewn perthynas â chadw a throsglwyddo cleifion gan gynnwys eu rhyddhau'n gynnar o garchariad neu leoliad cadw. Mae'r ddarpariaeth yng Nghymal 9 yn ymwneud â mater paragraff 175 a gedwir yn ôl, sef carchardai a rheoli troseddwr sy'n cynnwys pwnc adrannau 47 i 49 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (trosglwyddo carcharorion i ysbyty) a darpariaethau'r Ddeddf honno sy'n ymwneud â phersonau sy'n gleifion dan gyfyngiadau o fewn yr ystyr a roddir i "*restricted patients*" gan adran 79 o'r Ddeddf honno. Serch hynny, drwy ystyried adran 108A(6) o ran a yw'r ddarpariaeth "yn ymwneud â" mater a gedwir yn ôl, nid yw'r ddarpariaeth sy'n galluogi'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru i weithredu'n effeithiol yn ystod pandemig coronafeirws ar ei phen ei hun "yn ymwneud â" rheoli carchardai a throseddwyr. Diben y ddarpariaeth yw galluogi i wasanaethau iechyd meddwl datganoledig yng Nghymru gael eu darparu heb oedi yn ystod pandemig ac felly mae dadl resymol y dylid rhagdybio'n gryf o blaid yr angen am Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol.
14. Mae cymal 10 yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol (o ran y GIG yn Lloegr) a Gweinidogion Cymru (o ran y GIG yng Nghymru) ddarparu indemniad ar gyfer rhwymedigaethau esgeuluster clinigol gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ac eraill sy'n codi yn sgil gweithgareddau'r GIG a wneir yn rhan o'r ymateb i bandemig coronafeirws. Ni fydd yr indemniad hwn yn gymwys i'r rhai sydd eisoes wedi'u cynnwys mewn cynlluniau gwladwriaethol a sefydlwyd o dan adran 30 o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Ni fydd ychwaith yn cynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sydd â sicrwydd indemniad ar gyfer yr esgeuluster clinigol o dan sylw drwy Sefydliad Amddiffyn Meddygol, corff proffesiynol neu pan fo ganddynt yswiriant masnachol. Diben y cymal yw sicrhau, o dan yr amgylchiadau eithriadol a allai godi mewn pandemig coronafeirws, fod trefniadau indemniad digonol yn eu lle i gynnwys holl weithgareddau angenrheidiol y GIG mewn ymateb i'r pandemig. Rydym o'r farn nad yw'r darpariaethau hyn yn torri unrhyw rai o'r profion cymhwysedd deddfwriaethol. Mae'r darpariaethau hyn yn ymwneud ag Iechyd. Amcan y darpariaethau hyn yw sicrhau cynaliadwyedd y gweithlu Gofal Iechyd yn ystod pandemig. Bydd hyn, yn ei dro, yn cynorthwyo Gweinidogion Cymru i gyflawni eu dyletswydd o dan adran 1 o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 i "*continue the promotion in Wales of a comprehensive health service designed to secure improvement in the physical and mental health of the people of Wales and in the prevention, diagnosis and treatment of illness*".

15. Cymal 14 ac Atodlen 11. Mae Rhannau 3 a 4 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswyddau ar Awdurdodau Lleol i asesu anghenion gofal a chymorth, ac i ddiwallu'r anghenion hynny. Mewn argyfwng disgwylir cynnydd yn y galw am wasanaethau gofal cymdeithasol ar adeg pan fyddai llai o weithwyr gofal cymdeithasol ar gael i'w darparu. Yn lle'r dyletswyddau hyn, bydd y Bil yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddiwallu anghenion gofal a chymorth drwy brawf sy'n cyd-fynd â darpariaeth bresennol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fel y bydd yn ofynnol i Awdurdod Lleol ddiwallu'r anghenion er mwyn gwarchod oedolyn neu ofalwr sy'n oedolyn rhag camdriniaeth neu esgeulustod neu'r perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod. Bydd y darpariaethau hyn yn golygu rhoi'r gorau i arferion presennol a'u bwriad yw lleihau baich gweithredol. Bydd angen i Awdurdodau Lleol Cymru ddatblygu a gweithredu rhai prosesau newydd, gan gynnwys trefnu gwerthusiadau brys o anghenion gofal sylfaenol a blaenoriaethu gofal mewn modd moesegol a chyson i lawr i lefel y gofynion sylfaenol fel y darperir ar eu cyfer yn y Bil. Mae'r Bil felly'n cynnwys darpariaeth i Weinidogion Cymru roi canllawiau i awdurdodau lleol o ganlyniad i'r darpariaethau hyn a, phan fo angen, roi cyfarwyddydau i sicrhau cydymffurfio â'r canllawiau hynny.
16. Mae cymalau 23 i 27 yn darparu pwerau i sicrhau y gall Gweinidogion gael gafael ar wybodaeth ynghylch amharu posibl, neu'r perygl o amharu, ar gadwyni bwyd os yw'r diwydiant bwyd, sy'n darparu'r wybodaeth hon yn wirfoddol ar hyn o bryd, yn peidio â gwneud hynny am unrhyw reswm, er bod hynny'n annhebygol. Mae'r parhad hwn o ran gwybodaeth ynghylch y gadwyn cyflenwi bwyd yn angenrheidiol i alluogi'r llywodraeth i gynllunio ar gyfer unrhyw amharu, neu'r perygl o amharu, ar y cyflenwad bwyd, ac i ymateb i hynny. Mae'r darpariaethau hyn yn ymwneud â bwyd, a chyflenwad bwyd. Mae gan ddiben y ddarpariaeth gysylltiad agos ag iechyd a llesiant personau yng Nghymru – sicrhau y gall pobl Cymru gael at fwyd. Mae cysylltiad agos hefyd ag amaethyddiaeth a dyframaethu a pharhad y diwydiant bwyd-amaeth o ran Cymru. Caiff y swyddogaethau a roddir ar Weinidogion Cymru eu mynegi drwy gyfeirio at y graddau y gallai Deddf gan Senedd Cymru roi'r swyddogaethau hynny ar Weinidogion Cymru. Ar y sail hon, ni all diben y swyddogaethau hynny o reidrwydd ymwneud ag unrhyw faterion a gedwir yn ôl. Am y rhesymau hyn, rydym yn ystyried bod y darpariaethau hyn, i'r graddau y maent yn rhoi swyddogaethau ar Weinidogion Cymru, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Rydym yn ystyried bod angen Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y cymal hwn.
17. Mae cymal 31 o fewn cymhwysedd Gweinidogion Cymru. Mae'n ymwneud â rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol a gwasanaethau gofal iechyd annibynnol. Mae gwasanaethau gofal cymdeithasol yn cael eu rheoleiddio o dan ddarpariaeth yn Neddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Mae gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yn cael eu rheoleiddio o dan ran 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2000. Mae'r swyddogaethau gweithredol o dan Ddeddf 2000 i gyd yn cael eu rhoi i Weinidogion Cymru. Er y cyfeirir at ddatgelu a gwahardd ym mharagraff

50 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel mater a gedwir yn ôl, nid yw'r ddarpariaeth yn ymwneud â bodolaeth neu weithrediad y gwasanaeth datgelu a gwahardd. Ei diben yw rhoi disgrisiwn i Weinidogion Cymru, yn yr argyfwng iechyd presennol, addasu neu ddatgymhwyso gofynion sydd wedi'u cynnwys o fewn y gofynion rheoleiddio y mae gwasanaethau rheoleiddio perthnasol Cymru yn ddarostyngedig iddynt.

18. Mae cymal 35 a Rhan 1 o Atodlen 15 yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd i gau sefydliad addysg neu ddarparwr gofal plant cofrestredig dros dro, neu gyfyngu ar fynediad iddynt, yn ystod y pandemig. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru awdurdodi awdurdod lleol i arfer y swyddogaeth hon ar gyfer ysgolion a darparwyr gofal plant; neu Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW) ar gyfer darparwyr rheoleiddiedig yng Nghymru. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru (neu awdurdodau lleol neu HEFCW) orfodi cyfarwyddyd drwy wneud cais am waharddeb yn y llysoedd sifil. Mae addysg yn faes sydd wedi'i ddatganoli ac mae'r rhan fwyaf o bwerau a dyletswyddau'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymwneud ag ysgolion o dan Ddeddf Addysg 1996 yn cael eu harfer ar gyfer Cymru gan Weinidogion Cymru (yn unol ag erthygl 1 ac atodlen 1 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999). Mae'r un peth yn wir am swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o ran addysg bellach ac uwch o dan sawl Deddf Seneddol a luniwyd cyn datganoli. O dan adran 16 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, mae gan Weinidogion Cymru bwerau i roi cyfarwyddyd i gau ysgolion a gynhelir. Ond nid yw'r bwerau hyn ond yn gymwys pan fo'r ysgol yn methu mewn rhyw fodd. Er nad yw'r bwerau hyn mor eang â'r bwerau yn y Bil yn ymwneud â chau ysgol, maent yn cyflwyno dadl gref bod gan Weinidogion Cymru'r pŵer i wneud darpariaethau o'r fath. Nid oes gan Weinidogion Cymru unrhyw bwerau i gau lleoliadau darparwyr addysg bellach neu addysg uwch mewn cyd-destun megis ar gyfer rhesymau yn ymwneud â phandemig COVID-19. Mae gofal plant yn fater sydd wedi'i ddatganoli, ac mae'n golygu unrhyw beth sy'n cael ei ystyried yn warchod plant neu ddarparu gofal dydd ar gyfer plant at ddiben Rhan 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Mae bwerau a dyletswyddau Gweinidogion Cymru sy'n ymwneud â gwarchod plant a gofal dydd wedi'u hamlinellu yn y Mesur. O dan adran 31 o'r Mesur mae pŵer ar gael i ganslo cofrestriad darparwr gofal plant, ond dim ond os yw person wedi'i anghymhwyso rhag cofrestru y mae'r rhain yn gymwys. Er nad yw'r bwerau hyn mor eang â'r bwerau yn y Bil ynglŷn â chau darparwyr gofal plant, maent yn rhoi dadl gryf bod gan Weinidogion Cymru'r pŵer i wneud darpariaethau o'r fath.
19. Mae Cymal 36 ac Atodlen 16 yn rhoi bwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru i wneud cyfarwyddydau mewn cysylltiad â pharhau i gynnal systemau addysg, hyfforddiant a gofal plant cofrestredig. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru awdurdodi awdurdod lleol i arfer y swyddogaeth hon mewn perthynas ag ysgolion neu ddarparwyr gofal plant; neu Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW) ar gyfer

darparwyr rheoleiddiedig yng Nghymru. Dylid nodi bod gwarchodwyr plant wedi'u heithrio o'r pwerau hyn. Mae'r cymal hwn hefyd yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru i ddatgymhwyso neu addasu drwy hysbysiad y gofynion presennol neu'r cyfyngiadau sydd wedi'u cynnwys mewn deddfwriaeth berthnasol a chytundebau cyllid yn ystod y pandemig. Gall hysbysiad ddatgymhwyso neu addasu darpariaeth am gyfnod penodol, na all fod yn fwy na mis. Mae rhestr o'r ddeddfwriaeth y gellir ei datgymhwyso neu ei haddasu wedi'i nodi yn Atodlen 16 ond gellir ychwanegu ati drwy reoliadau yn amodol ar y weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed'. Mae addysg yn fater sydd wedi'i ddatganoli ac mae'r rhan fwyaf o bwerau a dyletswyddau'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymwneud ag ysgolion o dan Ddeddf Addysg 1996 yn cael eu harfer mewn perthynas â Chymru gan Weinidogion Cymru (yn unol ag erthygl 1 ac atodlen 1 Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999). Mae'r un peth yn wir am swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas ag addysg bellach ac uwch o dan sawl Deddf Seneddol a luniwyd cyn datganoli. Mae gofal plant yn fater sydd wedi'i ddatganoli, ac mae'n golygu unrhyw beth sy'n ymwneud â gwarchod plant neu ddarparu gofal dydd i blant at ddibenion Rhan 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Mae pwerau a dyletswyddau Gweinidogion Cymru yn ymwneud â gwarchod plant a gofal dydd wedi'u hamlinellu yn y Mesur. Oherwydd cymhwysedd y Senedd o ran addysg a gofal plant, mae rhagdybiaeth gref y byddai angen Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol o ran yr elfen hon o'r Bil. Nid ydym yn credu bod unrhyw faterion perthnasol wedi'u cadw yn ôl a fyddai'n golygu bod y ddarpariaeth hon y tu hwnt i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

20. Diben y darpariaethau hyn yw sicrhau digon o ddiogelwch ar ffiniau os na fydd digon o aelodau staff Llu'r Ffiniau ar gael i ddiogelu pob porthladd, o ganlyniad i'r coronafeirws. Credwn fod y darpariaethau'n methu un neu ragor o'r profion cymhwysedd deddfwriaethol. Yn benodol, mae'r cymal a'r Atodlen yn ymwneud â'r materion diogelwch gwladol, diogelwch trafniadaeth a / neu fewnfudo a nodir yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Am y rheswm hwnnw, nid yw'r pynciau yn faterion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, ac nid yw Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn ofynnol yn unol â Rheol Sefydlog 29. Fodd bynnag, gwneir y darpariaethau mewn cysylltiad â materion datganoledig, i'r graddau bod cymhwysedd deddfwriaethol yn bodoli mewn perthynas â phorthladdoedd a harbyrau (dim ond ymddiriedolaethau, porthladdoedd a harbyrau nad ydynt yn gyfangwbl yng Nghymru a gedwir yn ôl o dan baragraff 121, Rhan 2, Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006). At hynny, mae'n ymddangos bod effeithiau posibl ar gymhwysedd gweithredol. At hynny, mae'n ymddangos bod effeithiau posibl ar gymhwysedd gweithredol. Trosglwyddodd Rhan 2 o Ddeddf Cymru 2017 - adrannau 29 i 38 yn benodol - amryw o swyddogaethau gweithredol mewn perthynas â harbyrau i Weinidogion Cymru (i'r graddau nad oeddent eisoes wedi'u trosglwyddo gan Orchmynion Trosglwyddo Swyddogaethau blaenorol). Yn benodol, trosglwyddodd adran 29 o Ddeddf Cymru 2017 amryw o swyddogaethau yn ymwneud â harbyrau a oedd yn gyfangwbl yng Nghymru (ac eithrio porthladdoedd ymddiriedolaeth a gedwir yn ôl fel

y'u diffinnir gan A32 o'r Ddeddf honno) oddi wrth un o Weinidogion y Goron i Weinidogion Cymru. Nid yw swyddogion yn rhag-weld y caiff cyfarwyddyd sylfaenol ei gyhoeddi'n uniongyrchol i Weinidogion Cymru yn unol â'r cymal hwn a'r Atodlen hon. Y pŵer a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol yw cyfarwyddo gweithredwyr porthladdoedd i atal swyddogaethau porthladd perthnasol ('a primary direction'). Mae'n annhebygol y gallai Gweinidogion Cymru ddod o fewn y diffiniad sylfaenol o weithredwyr porthladdoedd, sef 'person concerned in the management of a port', gan nad yw Gweinidogion Cymru yn ymwneud â rheolaeth ymarferol uniongyrchol unrhyw borthladdoedd, pa un a ydynt yn feysydd awyr, porthladdoedd neu borthladdoedd hofranlongau. Fodd bynnag, mae'r darpariaethau yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol, wrth roi neu ar ôl rhoi cyfarwyddyd sylfaenol i weithredydd porthladd, roi cyfarwyddyd ysgrifenedig canlyniadol i bartïon eraill, os yw'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod hynny'n briodol o ganlyniad i'r cyfarwyddyd sylfaenol hwnnw. Mae'n bosibl y gallai cyfarwyddyd canlyniadol / eilaidd o'r fath gael ei roi i Weinidogion Cymru a'i fod yn amharu ar eu gallu i arfer eu swyddogaethau gweithredol yn rhydd (er mai dim ond am gyfnod cyfyngedig iawn y byddai hynny – dim ond am 6 awr y caiff cyfarwyddydau cychwynnol bara, a dim ond am gyfnodau o 6 neu 12 awr ar ôl hynny y gellir eu hestyn). Mae sail dros osod Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y ddarpariaeth hon, gan ei bod yn ymwneud â materion datganoledig (er bod y diben yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl). Ymddengys o baragraffau 34 a 105(d) o'r Nodyn Cyfarwyddyd Datganoli y byddai Llywodraeth y DU fel arfer yn disgwyl gorfod gofyn am gydsyniad ar gyfer darpariaeth sy'n newid swyddogaethau Gweinidogion Cymru.

21. Mae Cymal 49 ac Atodlen 20 yn ymwneud ag atal, sgrinio ac ynysu unigolion a all fod yn heintus, pan fo risg y gallent heintio eraill. Mae'r ddarpariaeth yn galluogi rhoi cyfyngiadau a gofynion ar berson sydd, neu a allai fod, wedi'i heintio â coronafeirws a bod risg y gallai heintio eraill, neu os yw person wedi bod mewn "ardal heintus" o fewn 14 diwrnod i gyrraedd y DU. Gall y pwerau o dan y Bil (i asesu, ynysu etc.) gael eu harfer gan swyddogion neu ymgynghorwyr iechyd y cyhoedd sydd wedi'u dynodi gan Weinidogion Cymru. Bydd y ddarpariaeth yn diddymu Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws) (Cymru) 2020, a oedd yn amlinellu pwerau diogelu iechyd y cyhoedd cymharol debyg ar gyfer Cymru. Gwnaethpwyd y rhain o dan y pwerau a nodwyd yn Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Heintiau) 1984 ("Deddf 1984") sy'n amlinellu gweithdrefn ar gyfer diogelu iechyd y cyhoedd rhag haint neu halogiad. Mae'r darpariaethau hyn yn ymwneud â diogelu iechyd y cyhoedd. Mae diben y ddarpariaeth yn ymwneud yn agos ag iechyd a llesiant personau yng Nghymru – i oedi neu i atal trosglwyddiad pellach sylweddol y coronafeirws yng Nghymru. Ar y sail hon, nid yw diben y ddarpariaeth yn ymwneud ag unrhyw faterion a gedwir yn ôl. Am y rhesymau hyn, rydym yn ystyried bod y darpariaethau hyn, i'r graddau y maent yn rhoi swyddogaethau i Weinidogion Cymru, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Rydym yn credu bod angen Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y cymal hwn.

22. Mae cymal 50 ac Atodlen 21 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, mewn perthynas â Chymru, wneud cyfarwyddyd i gyfyngu ar ddigwyddiad neu gynulliad, neu i'w wahardd, ac i orchymyn cau mangre. Bydd arfer y pŵer hwn yn amodol ar y ffaith bod Gweinidogion Cymru wedi datgan bod mynychder neu drosglwyddiad y coronafeirws yn peri bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd yng Nghymru a bod mynychder neu drosglwyddiad y coronafeirws wedi cyrraedd pwynt lle gellid ystyried yn rhesymol bod y mesurau hyn yn ddull rhesymol o atal trosglwyddiad pellach y coronafeirws ar raddfa sylweddol. Cyn cyhoeddi cyfarwyddyd, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw i gyngor y Prif Swyddog Meddygol, neu un o Ddirprwy Brif Swyddogion Meddygol Cymru. Mae diben y ddarpariaeth yn ymwneud yn agos ag iechyd a llesiant personau yng Nghymru – er mwyn atal, gwarchod yn erbyn, oedi neu reoli fel arall fynychder neu drosglwyddiad y coronafeirws yng Nghymru. Gallai Deddf gan y Senedd roi swyddogaethau o'r un natur, amrediad a chymhwysiad i Weinidogion Cymru. Rydym yn ystyried bod y cymalau hyn yn rhai ar gyfer gwneud darpariaeth sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd felly mae Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn ofynnol.
23. Cymal 56 ac Atodlen 27 - diben Rhan 1 o Atodlen 27 yw sicrhau bod gan awdurdodau lleol ac awdurdodau cenedlaethol bwerau i'w gwneud yn ofynnol i bersonau ddarparu gwybodaeth iddynt i'w galluogi i sicrhau'r gallu i reoli'n effeithiol y gwaith o gludo, storio a gwaredu cyrff marw a gweddillion dynol. Er enghraifft, gwybodaeth gan gwmnïau preifat fel cartrefi angladd preifat neu amlosgfeydd. Y nod yw llywio penderfyniadau ynghylch dynodi awdurdod lleol fel y gellir gwneud cyfarwyddydau i alluogi newidiadau yn y system rheoli marwolaethau pan fydd y capasiti annigonol yn y maes hwnnw, neu'n debygol o fod felly, o ganlyniad i farwolaethau sylweddol yn sgil y coronafeirws. Mae Rhan 2 o'r Atodlen wedyn yn caniatáu i awdurdodau cenedlaethol ddynodi awdurdod lleol, lle, o ganlyniad i coronafeirws, mae'n debygol na fydd digon o gapasiti yn yr ardal honno i gludo, storio neu waredu cyrff marw neu weddillion dynol. Unwaith y dynodir ardal, gall awdurdod lleol roi cyfarwyddydau i gwmnïau neu gorfforaethau. Mae Rhan 3 yn caniatáu i awdurdodau cenedlaethol ymyrryd os nad yw awdurdod lleol yn rheoli'r marwolaethau ychwanegol yn eu hardal yn effeithiol. Mae Atodlen 27 yn rhoi pwerau i wneud cyfarwyddydau ar y cyd â'r holl faterion hyn i Weinidogion Cymru (fel yr awdurdod cenedlaethol perthnasol mewn perthynas â Chymru) ac i awdurdodau lleol yng Nghymru. Yr unig fater a gedwir yn ôl yr ydym yn credu y gallai fod yn cyffwrdd ag ef yw ym mharagraff 47 o Atodlen 7A, "emergency powers". Mae'n amlwg bod hyn yn berthnasol yma gan fod y pwerau wedi'u hanelu at reoli ôl-effeithiau argyfwng, a allai awgrymu y byddai y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i ddeddfu yn y modd hwn. Wedi dweud hynny, gellid dehongli'r darpariaethau hefyd fel rhai sy'n ymwneud â materion datganoledig – o ystyried eu bod yn seiliedig ar bwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol yng Nghymru a Gweinidogion Cymru i reoli'r ymateb hwnnw. Mae hyn yn cyd-fynd â'r farn gyffredinol yr ydym wedi'i harddel mewn perthynas â'r ffordd y mae gan y Bil cyfan y potensial i gyffwrdd â'r mater hwn a gedwir yn ôl. I gloi, felly, er

ei bod yn bosibl nad yw'r cymal hwn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, mae'n effeithio ar amrywiaeth o feysydd sydd wedi'u datganoli.

24. Mae cymal 62 yn darparu, pan fyddai, cyn 6 Mai 2021, yn ofynnol fel arall cynnal etholiad o dan adran 10 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i lenwi sedd etholaeth wag, y caiff Llywydd y Senedd bennu dyddiad diweddarach ar gyfer pleidleisio yn yr etholiad hwnnw. Mae hon yn ddarpariaeth at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.
25. Bydd cymal 63 yn galluogi, drwy reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru, gohirio unrhyw etholiadau ar gyfer seddi sy'n digwydd dod yn wag (a elwir hefyd yn is-etholiadau) a allai godi mewn awdurdodau lleol yng Nghymru pan fyddai dyddiad y bleidlais yn digwydd fel arall yn ystod y cyfnod sy'n dechrau â'r diwrnod y caiff y Ddeddf hon ei phasio ac yn dod i ben ar 5 Mai 2021. Mae hon yn ddarpariaeth at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.
26. Mae cymal 64 yn darparu y bydd rheoliadau o dan y cymal hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth atodol mewn cysylltiad â chymalau 62 a 64. Mae'r cymalau hyn yn caniatáu gohirio pleidleisio mewn etholiadau datganoledig ac felly maent at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.
27. Ystyrir ei bod yn ofynnol cael cydsyniad y Senedd ar gyfer yr holl ddarpariaethau uchod.

Darpariaethau Terfynol

28. Cymalau diwedd y Bil yw cymalau 71, 73 – 78, 80, 85 ac 87 ac maent yn cynnwys cymalau cychwyn a rhychwant a'r enw byr. Ceir darpariaethau hefyd ynghylch a ganiateir gwneud rheoliadau er mwyn atal dros dro neu adfer darpariaethau yn y Bil, yn ogystal â darpariaethau ynghylch dod i ben yn awtomatig mewn perthynas â darpariaethau penodol yn y Bil, a'r pŵer i newid y dyddiad dod i ben.
29. Er nad yw'r rhain yn ddarpariaethau o sylwedd, maent yn rhyngweithio â darpariaethau o sylwedd. Felly, i'r graddau y mae'r cymalau hyn yn rhyngweithio â darpariaethau o sylwedd sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, byddai'r cymalau hyn hefyd o fewn cymhwysedd i'r un graddau.
30. Nid oes unrhyw ofyniad na rhwystr cyfreithiol i osod Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol mewn cysylltiad â'r darpariaethau hyn, ond rydym yn ystyried ei bod yn fuddiol cynnwys y darpariaethau diwedd y Bil yn y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol.

Gwelliannau

31. Byddai'n ofynnol hefyd i'r gwelliannau a ganlyn, pe baent yn cael eu pasio gan Senedd y DU, gael cydsyniad Senedd Cymru.

32. Darpariaeth i estyn amddiffyniad tenantiaid rhag cael eu troi allan – diben y darpariaethau yw rhoi mwy o amser i denantiaid sy'n wynebu cael eu troi allan o eiddo rhent drwy estyn y cyfnod hysbysu y mae'n ofynnol i landlord ei gyflwyno i denant cyn y gall gyflwyno achos cymryd meddiant, i o leiaf dri mis. Diben cyffredinol y polisi yw lleihau baich diangen ar y systemau gofal iechyd, gofal cymdeithasol ac awdurdodau lleol a fyddai'n deillio o ddigartrefedd. Bydd tenantiaid yn cael eu hamddiffyn yn enwedig ar adegau pan all eu ffrydiau incwm fod yn fregus, a phan fyddant yn poeni am eu hiechyd a'u llesiant. Mae'r cymalau yn estyn dros dro y cyfnod nad oes modd cyflwyno achos cymryd meddiant ynddo fel y nodwyd yn Neddffau Tai 1985, 1988 a 1996 ac yn creu cyfnod hysbysu cyfwerth ar gyfer tenantiaethau statudol rheoleiddiedig o dan Ddeddf Rhenti 1977. Mae'r polisi yn ymwneud â'r holl ddeiliadaethau ac yn berthnasol i bob math o denantiaeth; nid yw wedi'i gyfyngu i denantiaid sydd wedi dal y coronafeirws neu a all fod wedi'i ddal. Er nad yw'n ofynnol dan y polisi bod yn rhaid i'r rheswm am geisio meddiant ymwneud yn uniongyrchol â COVID-19, mae'r polisi yn mynd ymhellach na cheisio helpu pobl sydd mewn trafferth uniongyrchol i dalu eu rhent o ganlyniad i COVID-19 yn unig. Ei nod hefyd yw atal niferoedd sylweddol o aelwydydd rhag dod o dan fygythiad neu sydd eisoes dan fygythiad o fod yn ddigartref yn ystod argyfwng cenedlaethol pan fo gwasanaethau tai ac iechyd a gwasanaethau cyhoeddus eraill o dan bwysau eithriadol a phan fo iechyd a llesiant unigolion mewn perygl sylweddol o ganlyniad i hynny. Mae'r cyfnod amddiffyn yn cydnabod y gall landlordiaid, mewn rhai achosion lle y mae ôl-ddyledion rhent, fod heb ffrwd incwm am gyfnod, ac y bydd oedi o ran meddiannu eu heiddo i'w werthu neu i'w ddefnyddio mewn ffordd arall, ond bwriedir iddo fod yn ymateb cymesur i'r ddwy ochr. Gellir dadlau fod y darpariaethau yn cyffwrdd â'r mater a gedwir yn ôl o ran amddiffyn defnyddwyr a gellid dadlau y gallent gyffwrdd ar gyfraith y materion a gedwir yn ôl o ran sut y maent yn berthnasol i fuddiant mewn tir. Fodd bynnag, ystyriwn mai'r ddadl orau yw'r ffaith eu bod yn ymwneud â thai sy'n bwnc datganoledig. Mae'n berthnasol, yn hynny o beth, fod y Cynulliad wedi deddfu yn y maes hwnnw i ddwyn i rym Deddf Rhentu Tai (Cymru) 2016 a fydd, pan gaiff ei chychwyn, yn disodli'r darpariaethau sylfaenol sydd i'w diwygio gan y cymalau arfaethedig yn y Bil Seneddol.
33. Darpariaethau i gynnwys paragraff 10A a 10B (Atodlen 7 – Diwygio Deddf Iechyd Meddwl 1983) – Bydd gwelliant gan y llywodraeth yn mewnosod paragraff 10A yn Atodlen 7 i'r Bil. Diben y ddarpariaeth yw dileu'r gofyniad yn adran 65(3) fod yn rhaid cael o leiaf dri aelod ar Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (y Tribiwnlys). Caiff Llywydd y Tribiwnlys neu berson a benodir ganddi benodi un neu ddau aelod yn lle hynny. Mae paragraff 10B yn darparu y caiff Tribiwnlys benderfynu ynghylch cais neu gyfeiriad heb wrandawriad os yw'n ystyried y byddai'n anymarferol cynnal gwrandawriad, bod tystiolaeth ddigonol ar gael ac na fyddai'n groes i fuddiannau'r claf. Rydym wedi ystyried a yw'r darpariaethau yn ymwneud â'r materion a gedwir yn ôl ym mharagraff 9 Atodlen 7A (Tribiwnlysoedd). Mae swyddogaethau'r Tribiwnlys yn arferadwy mewn perthynas â Chymru

yn unig ac nid ydynt yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl ac felly mae'r eithriad ym mharagraff 9(2) yn gymwys. Mae'r Tribiwnlys yn gwneud penderfyniadau mewn perthynas â chleifion iechyd meddwl dan gadwad o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 nad yw'n fater a gedwir yn ôl. Rydym wedi ystyried a yw'r ddarpariaeth yn ymwneud â'r mater a gedwir yn ôl ym mharagraff 175 (Carchardai a sefydliadau eraill a ddefnyddir i gadw personau sydd wedi'u cyhuddo o drosedd neu sydd wedi'u cael yn euog o drosedd) i'r graddau y mae'r Tribiwnlys yn gwneud penderfyniadau mewn perthynas â chleifion dan gyfyngiadau o fewn ystyr adran 79 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Fodd bynnag, gan fod y penderfyniad yn ymwneud ag iechyd meddwl nad yw'n fater a gedwir yn ôl, ystyriwn nad yw'r paragraff yn berthnasol. Rydym hefyd wedi ystyried a yw'r cyfyngiad ym mharagraff 4 Atodlen 7B yn berthnasol ond, yn ein barn ni, nid yw swyddogaethau'r Tribiwnlys yn gwneud addasiadau i'r gyfraith droseddol. Oherwydd hyn, rydym yn ystyried bod y darpariaethau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac felly bod Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn ofynnol.

34. Cyfarfodydd awdurdodau lleol – diben y pŵer a roddir gan gymal 85 yw galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ymwneud â chyfarfodydd awdurdodau lleol. Mae cymal 85 hefyd yn rhoi'r un pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Lloegr a'r Adran Gymunedau yng Ngogledd Iwerddon. Rydym o'r farn y byddai'r darpariaethau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae'r gyfraith mewn perthynas â strwythurau llywodraeth leol a'r ffordd y mae llywodraeth leol yn gweithredu yng Nghymru wedi'i datganoli. Mae'r darpariaethau yn ymwneud â chynnal cyfarfodydd awdurdodau lleol (er enghraifft, pa mor aml y cânt eu cynnal, a'u lleoliad) a mynediad i'r cyhoedd i'r cyfarfodydd hyn, a byddant yn galluogi aelodau'r awdurdodau i fynychu'r cyfarfodydd o bell. Bydd y darpariaethau yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn perthynas â chyfarfodydd amryfal gyrff awdurdodau lleol, er enghraifft, cynghorau sir a bwrdeistref sirol, cynghorau cymuned, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru. Maent i gyd yn gyrff datganoledig. Oherwydd hyn, ystyriwn fod y darpariaethau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a bod Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn ofynnol ar gyfer y cymal hwn.
35. Etholiadau i'w cynnal yn ystod y cyfnod ar ôl 15 Mawrth - mae gwelliannau wedi'u paratoi sy'n ategu'r darpariaethau hynny sydd eisoes yn y Bil adeg ei gyflwyno a fyddai'n galluogi gohirio etholiadau penodol pa na fyddai pwerau cyfwerth o'r fath yn bodoli fel arall. Mesur dros dro yw'r gwelliannau hyn sy'n targedu'n benodol etholiadau y byddai'n ofynnol eu cynnal o fewn y cyfnod yn dechrau ar 16 Mawrth 2020 ac yn dod i ben 30 o ddiwrnodau ar ôl hynny pan gaiff y Ddeddf hon ei phasio. Diben y darpariaethau hyn yw darparu amddiffyniad statudol i swyddogion (ac eraill) sy'n dychwelyd i'w swyddi nad ydynt yn cydymffurfio â'u dyletswyddau cyfreithiol mewn cysylltiad â pharhau i gynnal yr etholiadau hynny yng ngoleuni'r sefyllfa bresennol o ran iechyd y cyhoedd. Byddant yn gwneud hynny drwy ddatgymhwyso darpariaethau o fewn Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a allai fel arall arwain at sefyllfa lle byddai'r

deiliad swydd perthnasol yn atebol yn droseddol. Ystyrir bod y gwelliannau hyn yn ymwneud â chynnal etholiadau awdurdodau lleol Cymru, sy'n fater datganoledig.

36. Trefniadau brys yn ymwneud ag ymarferwyr meddygol: Cymru - caiff y Cyngor Meddygol Cyffredinol o dan adran 18A (Cofrestru dros dro o ran argyfyngau sy'n cynnwys marwolaethau pobl neu salwch pobl etc) o Ddeddf Feddygol 1983, gofrestru person dros dro fel ymarferwr meddygol cymwysedig os yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn cynghori bod argyfwng wedi digwydd, yn digwydd neu ar fin digwydd. Ni chaiff ymarferwyr meddygol berfformio unrhyw wasanaethau gofal sylfaenol, oni bai eu bod yn ymarferwyr meddygol cyffredinol a'u bod wedi'u cynnwys ar restr perfformwyr meddygol Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru. Mae'r cymal hwn yn cynnwys addasiadau dros dro i'r canlynol:
- (a) Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestr Perfformwyr) (Cymru) 2004 (O.S 2004/1020 (Cy. 117)), a
 - (b) Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004 (O.S 2004/478 (Cy. 48)).

Diben y cymal hwn yw galluogi meddygon teulu sydd wedi'u cofrestru dros dro i berfformio gwasanaethau meddygol sylfaenol yng Nghymru mewn amgylchiadau penodol er nad ydynt ar restr perfformwyr Bwrdd Iechyd Lleol. Mae'n gwneud darpariaeth debyg ar gyfer Cymru i honno a wneir gan Atodlen 2 o'r Bil ar gyfer yr Alban. Gallai Deddf gan y Senedd roi swyddogaethau sy'n debyg o ran eu natur, eu graddfa a'r ffordd y cânt eu cymhwyso i Fyrddau Iechyd Lleol yng Nghymru. Ystyriwn fod y cymalau hyn i wneud darpariaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac felly mae Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn ofynnol.

37. Prydlesau masnachol - i'r graddau y maent yn ymwneud â Chymru, mae'r ddarpariaeth yn darparu, hyd at 30 Mehefin 2020 neu unrhyw ddyddiad diweddarach a bennir mewn rheoliadau gan Weinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol (gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru): Bydd moratoriwm ar landlordiaid yn sicrhau meddiant o safleoedd busnes o ganlyniad i fforffediad ar sail peidio â thalu rhent, gan ddiwygio a138 o Ddeddf Llysoedd Sirol 1984 ac a38 o Ddeddf Uwch Lysoedd 1981; a bydd landlordiaid yn cael eu hatal rhag gwrthwynebu adnewyddu tenantiaethau busnes ar y sail a nodir yn a30(1)(b) o Ddeddf Landlord a Tenant 1954 bod tenantiaid wedi oedi'n gyson o ran talu eu rhent. Bydd y darpariaethau hyn yn berthnasol i achosion fforffedu presennol yn ogystal â thrafodion y dyfodol yn ystod y cyfnod hwn ac felly byddant yn cael effaith ôl-weithredol. Mae paragraff 3(1) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu fel a ganlyn "*A provision of an Act of the Assembly cannot make modifications of, or confer power by subordinate legislation to make modifications of, the private law*". Mae is-adran (2) o'r un paragraff yn diffinio'r gyfraith breifat fel "*the law of contract, agency, bailment, tort, unjust enrichment and restitution, property, trusts and succession*". Ar y sail hon mae dadl bod y gwelliant hwn sy'n ceisio diwygio'r gyfraith eiddo (sef drwy ddiwygio Deddf Landlord a Tenant

1954, Deddf Llysoedd Sirol 1984 ac Deddf Uwch Lysoedd 1981) yn cyffwrdd â'r cyfyngiad ym mharagraff 3(1) o Atodlen 7B, ac na fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Fodd bynnag, mae is-adran (4) yn darparu fel a ganlyn *“Sub-paragraph (1) does not apply to a modification that has a purpose (other than modification of the private law) which does not relate to a reserved matter.”* Os nad addasu'r gyfraith breifat er ei mwyn ei hun yw diben y ddarpariaeth, ond yn hytrach ddiben arall nad yw wedi ei chadw'n ôl, yna byddai is-adran (4) yn caniatáu'r addasiad hwnnw. Diben y Bil yn ei gyfanrwydd yw rhoi mesurau brys ar waith i ddelio â'r pandemig COVID-19. Mae diben y ddarpariaeth benodol sy'n cael ei hystyried yn amlweddog. Yn gyntaf, mae'n mynd i'r afael â'r bygythiad arfaethedig i iechyd, drwy hwyluso'r broses i fusnesau a'r cyhoedd yn gyffredinol allu llynu wrth gyngor y Llywodraeth ynglŷn â chadw pellter cymdeithasol, drwy ysgafnhau'r pwysau ar fusnesau i aros ar agor. Yn ail, ei ddiben yw darparu cefnogaeth i fusnesau a diogelu eu hyfywedd ariannol, gan ddiogelu'r economi yn sgil hynny. Nid yw lechyd na Datblygu Economaidd wedi'u rhestru'n faterion a gedwir yn ôl yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, ac yn wir fe'u rhestrwyd fel materion datganoledig yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, cyn iddi gael ei diwygio gan Ddeddf Cymru 2017. Rydym hefyd wedi ystyried a yw'r gwelliant yn cynnwys y cyfyngiad ar y gyfraith ar faterion a gedwir yn ôl ym mharagraff 1 o Atodlen 7B, ar y sail bod y gwelliant yn gwneud diwygiad i Ddeddf Llysoedd Sirol 1984 a Deddf Uwch Lysoedd 1981. Mae paragraff 1 o Atodlen 7B yn darparu fel a ganlyn *“a provision of an Act of the Assembly cannot make modifications of, or confer power by subordinate legislation to make modifications of, the law on reserved matters”*. Mae is-adran 2 yn darparu bod y gyfraith ar faterion a gedwir yn ôl yn golygu *“(a) any enactment the subject-matter of which is a reserved matter and which is comprised in an Act of Parliament or subordinate legislation under an Act of Parliament, and (b) any rule of law which is not contained in an enactment and the subject-matter of which is a reserved matter”*. Yn ein barn ni, mae diben y darpariaethau sy'n cael eu diwygio, a'r diwygiadau eu hunain, yn ymwneud â chyfraith eiddo / landlord a thenant yn hytrach nag awdurdodaeth sengl Cymru a Lloegr. Beth bynnag, rydym yn ystyried bod y diwygiad i Ddeddf Llysoedd Sirol 1984 a Deddf Uwch Lysoedd 1981 yn atodol i ddiben y gwelliant (nad yw'n ymwneud â materion a gedwir yn ôl) ac nad yw'n cael dim mwy o effaith ar faterion a gedwir yn ôl nag sy'n angenrheidiol er mwyn rhoi effaith i ddiben y ddarpariaeth honno, ac fel y cyfryw, na fyddai'r cyfyngiad ym mharagraff 1(1) yn gymwys beth bynnag (paragraff 2(1)). Ar y sail a amlinellir uchod, rydym o'r farn bod y gwelliant arfaethedig o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, ac felly y dylid ei gynnwys yn y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol.

38. Diwygio cymal 31 (pŵer i Weinidogion Cymru ddatgymhwyso darpariaethau penodol o ran y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd). Diben y gwelliant hwn yw darparu amddiffyniad i bersonau a bennir mewn hysbysiad a wneir gan Weinidogion Cymru yn unol â chymal 31(4)(a). Mae'r gwelliant hwn yn angenrheidiol er mwyn gweithredu'r cymal presennol yn effeithiol. Am y rhesymau a nodir uchod mewn perthynas â chymal 31, ystyrir bod y gwelliant hwn hefyd o fewn cymhwysedd

deddfwriaethol y Senedd felly mae'n briodol, os caiff y gwelliant hwn ei basio, bod y Senedd yn rhoi ei chydysniad iddo yn unol â phroses y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol.

39. Mae Cymal 50 ac Atodlen 21 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru, mewn perthynas â Chymru, wneud cyfarwyddyd i gyfyngu neu wahardd digwyddiadau neu gynulladau ac i orchymyn cau mangre. Bydd y gwelliant hwn yn mewnosod yn Rhan 4 o Atodlen 21 bŵer i Weinidogion Cymru ddynodi person i orfodi cydymffurfedd â chyfarwyddydau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru gan ddefnyddio'r pwerau yn Atodlen 21. Bydd yn adlewyrchu'r gwelliant sy'n cael ei ychwanegu i Ran 2 o Atodlen 20 mewn perthynas â Lloegr. Ychydig iawn o rybudd nac amser a roddwyd i Lywodraeth Cymru wneud sylwadau ar y newid arfaethedig hwn ond gofynnodd swyddogion am ddarpariaeth benodol a fyddai'n grymuso Gweinidogion Cymru i ddynodi awdurdodau a gedwir yn ôl, megis yr heddlu, yn ogystal ag awdurdodau a gedwir yn ôl. Fodd bynnag, nid oedd Llywodraeth y DU yn gallu darparu unrhyw ddrafftio penodol i fodloni'r cais hwn oherwydd y brys am y gwelliant ond mae'r Swyddfa Cwnsleriaid Seneddol wedi cadarnhau bod "person" yn golygu unrhyw berson. Felly, mae'n ymddangos, ac efallai yr hoffai Gweinidogion Cymru ddadlau y gallai'r ddarpariaeth ymwneud ag awdurdodau a gedwir yn ôl. Mae gan yr heddlu ddigon o bwerau o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 a deddfwriaeth arall i orfodi'r gyfraith droseddol, ac felly maent yn gallu gorfodi unrhyw gyfarwyddydau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru. Diben y gwelliant hwn yw sicrhau bod modd i gyfarwyddydau Gweinidogion Cymru gael eu gorfodi gan bersonau dynodedig eraill os digwydd bod angen i'r heddlu, yr effeithir arnynt hefyd gan leihad yn nifer y staff oherwydd salwch yn ystod pandemig, gael eu ddefnyddio ar gyfer materion eraill sy'n fwy o frys, sy'n golygu na fyddant efallai'n gallu gorfodi gwaharddiadau o dan Atodlen 21. Mae paragraff 8 o Atodlen 7B yn darparu na all un o Ddeddfau Senedd Cymru roi swyddogaeth i awdurdod a gedwir yn ôl (na rhoi pŵer i wneud hynny mewn is-ddeddfwriaeth) heb gydsyniad Gweinidog y Goron. Gan fod y gwelliant yn cyfeirio at "berson", gallai hyn gynnwys awdurdodau a gedwir yn ôl (ac efallai y bydd Gweinidogion Cymru am ddefnyddio'r ddadl hon er mwyn defnyddio awdurdodau a gedwir yn ôl at ddibenion gorfodi) ac felly byddai'n torri'r cyfyngiad yn Atodlen 7B. Er y gallai Deddf gan y Senedd roi swyddogaethau o'r un natur, maint a chymhwysiad i Weinidogion Cymru mewn perthynas ag awdurdodau datganoledig yng Nghymru, byddai angen cydsyniad er mwyn iddo fod yn gymwys i awdurdodau a gedwir yn ôl. Er y byddai hyn fel arfer yn golygu nad oedd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, safbwynt Llywodraeth y DU yn y Nodyn Cyfarwyddyd Datganoli yw y gall yr angen am gydsyniad gael ei anwybyddu at ddiben Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol.
40. Diwygio Atodlen 27 – Mae'r dull a'r modd o ymdrin â'r ymadawedig yn fater hynod sensitif ac arwyddocaol, ac mae amrywiaeth mawr o ran yr hyn sydd orau gan bobl. Bu pryder ynghylch a fyddai dymuniadau pobl yn cael eu hystyried ai peidio. Er mwyn ymateb i'r pryder hwn, mae'r gwelliannau hyn yn ceisio sicrhau'r cyhoedd y bydd eu dymuniadau, lle y

maent yn hysbys, yn cael eu hystyried gan awdurdodau lleol a chenedlaethol (sef awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru) wrth arfer y pwerau o dan Atodlen 27 i'r Bil fel y'i cyflwynwyd, mewn perthynas â chyrrff marw o ganlyniad i achosion o'r coronafeirws. Mae'r gwelliannau hyn yn ymwneud â chymal 56 ac Atodlen 27 fel yr oeddent yn ymddangos yn y Bil fel y'i cyflwynwyd. Yn unol â'r cyngor uchod, ein barn ni yw bod rhesymau dros gyfiawnhau gosod Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y darpariaethau hyn. Er bod rhywfaint o le i ddadlau nad ydynt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, maent er hynny yn effeithio ar feysydd datganoledig.

41. Ystyrir y bydd cydsyniad Senedd Cymru yn ofynnol i'r graddau y caiff unrhyw un neu ragor o'r gwelliannau hyn eu pasio gan Senedd y DU ac y byddant felly yn rhan o'r Bil.

Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru ym Mil y Coronafeirws

42. Mae'r Bil yn cefnogi dull gweithredu cydlynus ar draws y DU i ymateb i'r bygythiad i iechyd y cyhoedd a berir gan COVID-19, gan ddarparu pwerau cyson i ymateb i'r sefyllfa yng Nghymru, o fewn meysydd a gedwir yn ôl a meysydd datganoledig, a chan barchu'r setliad datganoli. Y bwriad yw cyrraedd sefyllfa lle y gall y bobl gywir (asiantaethau cyhoeddus ym mhob un o bedair gwlad y DU) weithredu'n gywir (fel y nodir yng Nghynllun Gweithredu'r DU ar COVID-19: <https://www.gov.uk/government/publications/coronavirus-action-plan/coronavirus-action-plan-a-guide-to-what-you-can-expect-across-the-uk>) ar yr adeg gywir (o ganlyniad i benderfyniadau a wneir gan bedair llywodraeth y DU, fel arfer o dan nawdd COBR) – defnyddio'r un pwerau, ar yr un pryd, yn yr un ffordd.

43. Mae'r cynllun gweithredu yn nodi opsiynau y gellir manteisio arnynt fel rhan o'r ymateb. Mae'r Bil hwn yn sicrhau bod gan yr asiantaethau a'r gwasanaethau sy'n chwarae rhan – ysgolion, ysbytai, yr heddlu ac eraill – yr arfau a'r pwerau angenrheidiol. Mae gan bob un o bedair gwlad y DU ei set o gyfreithiau ei hun, ac felly mae'r arfau a'r pwerau yn wahanol (i raddau amrywiol) ym mhob maes. Bydd cysondeb o ran canlyniad drwy sicrhau bod yr amrywiaeth o arfau a phwerau yn gyson ar draws y DU.

Goblygiadau ariannol

44. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru na'r Cynulliad o ganlyniad i gymryd y pwerau hyn yn y Bil hwn. Er bod y Bil yn ceisio lleihau costau posibl drwy symleiddio gwasanaethau a phrosesau, mae disgwyliad y bydd effaith ariannol y pandemig yn eang.

Casgliad

45. Mae'r Bil hwn yn cefnogi dull gweithredu cydlynus ar draws y DU i ddelio â'r pandemig coronafeirws. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn, felly, ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan y DU.

Vaughan Gething AC

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

24 Mawrth 2020